COFNODION CYFARFOD BWRDD TYFU CANOLBARTH CYMRU A GYNHALIWYD DRWY GYFRWNG ZOOM DDYDD IAU, 12 RHAGFYR 2024

PRESENNOL

Aelodau Cyngor Sir Ceredigion:

Y Cynghorydd Bryan Davies, Arweinydd ac Aelod Cabinet ar gyfer Gwasanaethau Democrataidd, Polisi, Perfformiad, Pobl a Sefydliad **(BD) (Cadeirydd)**
Y Cynghorydd Catrin M S. Davies, Aelod Cabinet ar gyfer Diwylliant, Hamdden a Gwasanaethau Cwsmeriaid **(CMSD)**
Y Cynghorydd Clive Davies, Aelod Cabinet ar gyfer yr Economi ac Adfywio **(CD)**
Y Cynghorydd Keith Henson, Aelod Cabinet ar gyfer Gwasanaethau Amgylcheddol Priffyrdd a Rheoli Carbon **(KH)**

Aelodau Cyngor Sir Powys:

Y Cynghorydd Beverley Baynham **(BB)**
Y Cynghorydd Matthew Dorrance, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet ar gyfer Powys Decach **(MD)**
Y Cynghorydd James Gibson-Watt, Arweinydd (**JGW)**
Y Cynghorydd Corinna Kenyon-Wade **(CKW)**
Y Cynghorydd David Selby, Aelod Cabinet ar gyfer Powys Fwy Llewyrchus **(DS)**

Swyddogion:

Eifion Evans, Prif Weithredwr, Cyngor Sir Ceredigion **(EE)**
Barry Rees, Cyfarwyddwr Corfforaethol, Cyngor Sir Ceredigion **(BR)**
Clive Pinney, Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd, Cyngor Sir Powys **(CP)**
Carwyn Jones-Evans, Uwch-swyddog Cyfrifol Portffolio TYFU y Canolbarth **(CJE)**
Cathy Martin, Rheolwr Gweithrediadau, TYFU y Canolbarth **(CM)**
David Price, Rheolwr PSRh, TYFU y Canolbarth **(DP)**
Diane Reynolds Cyfarwyddwr Yr Economi a Gwasanaethau Cymunedol, Cyngor Sir Powys **(DR)**
Peter Jones, Rheolwr Perfformiad y Fargen Dwf a Phrosiectau, TYFU y Canolbarth (**PJ)**
Steve Lesbirel, Cadeirydd Grŵp Cynghori Economaidd **(SL)**
Duncan Hall, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael, Cyngor Sir Ceredigion **(DH)**
Ffion Lloyd, Cyfreithiwr, Cyngor Sir Ceredigion **(FL)**
Russell Hughes-Pickering, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Economi ac Adfywio, Cyngor Sir Ceredigion **(RHP)**
Daniel Burgess, Pennaeth yr Economi a Hinsawdd Cyngor Sir Powys **(DB)**
Fiona Brennan, Assured Consulting (Arsylwi) **(FB)**
Lowri Edwards, Swyddog Arwain Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd, Cyngor Sir Ceredigion **(LE)**

Arsylwyr y Llywodraeth:

Gareth Ashman, Pennaeth Twf Rhanbarthol a Lleol, Llywodraeth y DU Cymru **(GA)**
Ann Watkin, Pennaeth Strategaeth, Alinio Gweithrediadau a Chynllunio, Llywodraeth Cymru **(AW)**

1.	CROESO AC YMDDIHEURIADAU (Y CYNGHORYDD BRYAN DAVIES)

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Emma Palmer, Prif Weithredwr Cyngor Sir Powys.

2.	DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL

Dim

3.	COFNODION DRAFFT Y CYFARFOD DIWETHAF 26/07/2024

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 26 Gorffennaf 2024 yn gofnod cywir.

4.	PARTNERIAETH SGILIAU RHANBARTHOL CANOLBARTH CYMRU (DAI PRICE)

Rhoddodd Rheolwr PSRh ddiweddariad ar weithgareddau'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol. Dywedodd fod Tîm PSRh yn gweithio gyda darparwyr hyfforddiant, darparwyr Addysg Bellach a busnesau peirianneg i ddatblygu cymwysterau priodol i gefnogi'r sector technoleg sgiliau Net Sero/Gwyrdd sydd ar ei dyfiant.

Dywedodd hefyd fod busnesau yn llai parod i ymgymryd â phrentisiaid ar hyn o bryd.

5.	BARGEN DWF CANOLBARTH CYMRU (CARWYN JONES-EVANS)

5.1. **Diweddariad Portffolio Strategol**

Adroddodd CJE ynghylch heriau sylweddol o ran sicrhau arian cyfatebol, pwysau ar gostau prosiect, parodrwydd cyflawni a datblygu achosion busnes.

Er mwyn mynd i'r afael â'r heriau hyn, fe'i penodwyd yn Uwch-swyddog Cyfrifol i oruchwylio'r Fargen Dwf ac adrodd yn uniongyrchol i Brif Weithredwyr y ddau Gyngor. Yn 2025, byddai'r Bwrdd yn cyfarfod bob deufis i alluogi gwneud penderfyniadau cyflymach.

Er gwaethaf yr heriau, roedd yn edrych yn debygol y byddai elfennau o'r Portffolio yn dechrau cyflawni yn gynnar yn 2025.

6.	BARGEN DWF CANOLBARTH CYMRU (CATHY MARTIN)

Darparodd y Rheolwr Gweithrediadau drosolwg o'r rhaglenni a'r prosiectau o fewn y Portffolio. Mae gwaith yn parhau i ddatblygu achosion busnes ar gyfer prosiectau o fewn y Rhaglen Ddigidol, ac ar gyfer y Rhaglen Safleoedd ac Eiddo mae gwaith yn mynd rhagddo ar brosiectau blaenredol yn Horeb a'r Drenewydd.

O ran y prosiectau annibynnol:

- Roedd pob un o'r 8 prosiect wedi derbyn cymeradwyaeth Achos Amlinellol Strategol.
- Roedd 1 Achos Busnes Amlinellol wedi'i gymeradwyo (Llynnoedd Cwm Elan).
- Roedd 1 Achos Busnes Amlinellol wedi'i gyflwyno i'w gymeradwyo yn y cylch llywodraethu hwn (Cynefin).
- Bydd 2 brosiect yn mabwysiadu dull Rhaglen 'Golau' (GFIP ac Adfer Camlas Trefaldwyn).
- Mae 2 brosiect yng nghamau cynnar datblygu eu Hachos Busnes Amlinellol (FMIC a Chanolfan Gweithgynhyrchu Canolbarth Cymru)
- Mae 1 prosiect yn dangos ychydig iawn o gynnydd (Harbwr Aberaeron)
- Mae un prosiect wedi'i ohirio'n swyddogol (Tir Glas).

Oherwydd bod y sefyllfa ar gyfer pob prosiect yn llawer cliriach a bod llwybr rhesymol ymlaen wedi'i nodi, mae'r statws cyffredinol ar draws pob prosiect yn felyn, gyda 6 hunanasesiad yn nodi Statws Coch Melyn Gwyrdd a 2 arall yn nodi sefyllfa bresennol o goch. Melyn/Coch oedd Statws Coch Melyn Gwyrdd ar gyfer y cyfnod blaenorol.

7.	**DULL GWEITHREDU ACHOSION BUSNES (CATHY MARTIN)**

Nododd y Bwrdd fod y Bwrdd Cyflawni Portffolio wedi cytuno ar ddull cyflawni fesul cam. Byddai hyn yn caniatáu dilyniannu a chyflwyno prosiectau'n raddol a fyddai'n lleddfu pwysau cyflawni cynnar. Byddai'r dull gweithredu cyntaf, Project Hybrid yn cael ei gymhwyso i brosiectau Cynefin a Llynnoedd Cwm Elan a byddai'n caniatáu iddynt gael cymeradwyaeth achos busnes amlinellol ac yna cyflwyno pecynnau gwaith aml-waith dilynol i'w cymeradwyo'n derfynol fesul cam. Byddai'r ail ddull, Rhaglen Golau, yn cael ei gymhwyso i brosiectau Parc Arloesi Dyfodol Gwyrdd ac Adfer Camlas Trefaldwyn. Byddai hyn yn galluogi'r ddau brosiect i ddatblygu dull graddol o sicrhau cyllid cyfatebol a chyflawni prosiectau arfaethedig. Ystyr Rhaglen 'Golau', yw y byddai canllawiau'n cael eu cymhwyso'n gymesur ac felly efallai na fyddant o reidrwydd yn ddarostyngedig i'r un gyfundrefn sicrwydd â rhaglenni ffurfiol Bargen Twf Canolbarth Cymru (Digidol a Safleoedd ac Eiddo).

Cytunwyd ar ddull gweithredu gyda Swyddfa Cyflawni Prosiectau Llywodraeth Cymru – ac mae Bwrdd Cyflawni'r Portffolio wedi cytuno arno.
Cadarnhawyd bod Llywodraeth Cymru yn fodlon ar y dull gweithredu a'i bod yn gyson â chanllawiau'r Trysorlys a Llywodraeth Cymru ac felly y gallai'r prosiectau fynd rhagddynt yn hyderus.

8.	**CYLLID (DUNCAN HALL)**

Ffurflen Flynyddol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024

PENDERFYNWYD: Cymeradwyo'r Datganiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024.

GWAHARDD Y CYHOEDD

Gofynnwyd i'r Aelodau, wrth ymdrin â'r eitemau canlynol ar yr agenda, ystyried a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r Cyfarfod.

PENDERFYNWYD: Gwahardd y cyhoedd a'r wasg o'r cyfarfod.

9.	**ACHOS BUSNES BARGEN DWF CANOLBARTH CYMRU I BENDERFYNU YN EI GYLCH (CATHY MARTIN)**

Ystyriodd y Bwrdd yr Achos Busnes Amlinellol ar gyfer prosiect Cynefin.

PENDERFYNWYD:

1. **Cymeradwyo'r Achos Busnes Amlinellol ar gyfer Prosiect Cynefin yn amodol ar awdurdod dirprwyedig i Uwch-swyddog Cyfrifol Adran 151 a Phortffolio fod yn fodlon ar y trefniadau adnoddau cyn eu gweithredu.**

2. **Rhoi awdurdod dirprwyedig i Fwrdd y Rhaglen Safleoedd ac Eiddo i oruchwylio a chyfarwyddo gweithrediad y Gronfa, gan gynnwys y gallu i awdurdodi dyfarndaliadau grant i brosiectau'r Gronfa, ar yr amod bod gweithgarwch yn parhau i gydymffurfio â pharamedrau'r Gronfa a nodir yn y BJC.**

10.	**ACHOS BUSNES BARGEN DWF CANOLBARTH CYMRU I BENDERFYNU YN EI GYLCH (CATHY MARTIN)**

Ystyriodd y Bwrdd yr Achos Busnes Amlinellol ar gyfer prosiect Cynefin.

PENDERFYNWYD:

1. **Cymeradwyo'r Achos Busnes Amlinellol ar gyfer prosiect Cynefin, yn amodol ar awdurdod dirprwyedig i Uwch-swyddog Cyfrifol Adran 151 a Phortffolio fod yn fodlon ar y trefniadau adnoddau cyn eu gweithredu.**

11.	**UNRHYW FATER ARALL**

Dim.

12.	**DYDDIADAU CYFARFODYDD NESAF**

5 Chwefror 2025.

Y Cynghorydd Sir Bryan Davies
Cadeirydd